



**Bwletin Awdurdod S4C**  
**Cyfarfod 345 – 20 Mai 2011**  
**S4C, Caerdydd**

---

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2011.

**1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 344**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 344.

Adroddiad Blynnyddol – nododd PW ei fod wedi derbyn sylwadau pellach gan yr aelodau. Bydd angen trafod dyddiad cyhoeddi gyda swyddogion ADdCCh.

Monitro'r Etholiad – mae Elin Haf Gruffudd Jones o Brifysgol Aberystwyth yn paratoi adroddiad. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am ddarllediadau'r Etholiad.

Bu cyfarfod o'r Bwrdd Adolygu Newyddion rhwng S4C a'r BBC heddiw. Cyflwynir adroddiad gan y BBC ar Etholiad 2011 i'r Awdurdod ym mis Mehefin.

**2. Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

**3. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Cyfarfod BBC/DCMS/S4C – cyfeiriodd AEO at yr ohebiaeth a chofnodion y cyfarfod. Nododd fod cyfarfod pellach ar 01.06.2011, pan fydd modd ail gychwyn ar y trafodaethau.

**4. Cyflwyniad ar Adolygiad Effeithlonrwydd ac Arloesi**

Gwahoddwyd Richie Turner (RT), o Academi Fyd-eang Prifysgol Cymru, i gyflwyno ei gasgliadau yn dilyn ei Adolygiad ar Effeithlonrwydd ac Arloesi yn S4C. Arweiniodd RT yr aelodau drwy'r cyflwyniad gan dynnu sylw at ei gasgliadau sy'n cynnwys argymhell arbedion drwy fabwysiadu dulliau effeithlon. Awgrymwyd bod RT yn croesgyfeirio ei adroddiad ag adroddiad Shortridge ac adroddiad Cynnwys 2012. Cyflwynir yr adroddiad terfynol gan RT o fewn y mis.

**5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu**

Cyflwynodd MD ei adroddiad. Cyfeiriodd at y rhaglenni chwaraeon sy'n dychwelyd i'r sgrin ym mis Mehefin a hefyd y rhaglen newydd ym maes adloniant ysgafn, Ar Gamera. Cafwyd trafodaeth a barn rhai o'r aelodau am Porthpenwaig. Trafodwyd arlwy S4C o'r briodas frenhinol a'r rhaglenni eraill a drefnwyd o gwmpas y digwyddiad.

Bydd S4C yn ehangu'r ddarpariaeth o Eisteddfod yr Urdd ar nos Lun a nos Fercher eleni i ddilyn cystadleuaeth y gân actol a chystadlaethau'r Ysgolion Uwchradd. Bydd S4C yn cydweithio gyda Radio Cymru yn ystod prif seremonïau'r dydd. Cyfeiriwyd at lwyddiant y gân rap gan Rapsgaliwn a Mistar Urdd.

Yn ystod y Sioe Frenhinol y bwriad yw darparu botwm coch gyda thrac sain Saesneg. Y gobaith yw ceisio nawdd i'r gwasanaeth yn ystod yr yl.

Bydd rhaglen Y Goets Fawr yn dilyn taith y lôn bost ar hyd yr A5 i Gaergybi. Y nod yw creu impact yn yr ardaloedd ar hyd y ffordd.

Roedd S4C wedi denu 104,000 yn erbyn cystadleuaeth drom ar y sianelu eraill megis cystadleuaeth Eurovision a Britain's Got Talent.

## **6. Adroddiad ac Argymhellion y Bwrdd Masnachol**

Rhoddodd SRJ ddiweddariad yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Masnachol ar 17.05.2011. Roedd y bwrdd wedi trafod eiddo adeiladau S4C a chytuno bod angen gwneud gwell defnydd ohonynt. Awgrymwyd darganfod gwerth adeilad Lambourne Crescent er mwyn gwerthu neu logi'r adeilad. Gwerthu Hysbysebion – nodwyd bod y Bwrdd Masnachol wedi cytuno i fynd i dendr am y gwaith.

**7. Cydymdeimlad** - Estynnwyd cydymdeimlad i deulu Islwyn Morris, a fu farw yn ddiweddar, a hefyd i Dewi Llwyd a'i deulu ar golli ei fam.

## **8. Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid